CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch Gyfrannol/Uwch

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced Subsidiary/Advanced

327/51

**CYMDEITHASEG – SOC 1**

**UNED 1 – CAFFAEL DIWYLLIANT**

A.M. DYDD MERCHER, 23 Mai 2007

(1 awr)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch bob cwestiwn o **UN** opsiwn yn unig.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

60 yw'r marc uchaf am y cwestiwn.

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau sgwâr ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Dylai'r amser a dreuliwch yn ateb cwestiwn gyfateb i'r marciau sydd ar gael amdano.

**Atgoffir chi y bydd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig a ddefnyddir yn eich atebion yn effeithio ar y marciau a roddir.**

*Atebwch bob cwestiwn o* **un** *opsiwn yn unig.*

**Opsiwn 1: Teuluoedd a Diwylliant**

**Mamau sy'n gweithio**

Ystyrir bod cyfanswm cynyddol o waith â chyflog a wneir gan famau y tu allan i'r cartref yn cael effeithiau pellgyrhaeddol ar berthnasoedd teuluol a **rolau rhywedd** *(gender roles).*

Mae rhai'n eu gweld fel effeithiau negyddol ond mae eraill yn fwy optimistaidd.

Yn ôl un astudiaeth, cafwyd nad oedd ofnau teuluoedd a phartneriaid, sef bod mamau'n canolbwyntio'n fwy ar waith ar draul eu cyfrifoldebau teuluol, yn gywir.

Roedd tadau a mamau'n credu bod gwaith y fam yn gwneud lles i'w perthnasoedd teuluol. Roedd gwaith y fam yn darparu sgiliau ac arian ac roedd hynny'n golygu y gallent gwrdd ag anghenion eu plant yn well.

Roedd perthnasoedd y mamau â'u partneriaid yn well hefyd, gan eu bod yn rhannu'r baich ariannol o ddarparu ar gyfer eu teulu a bod ganddynt fwy o ddiddordebau yn gyffredin. Roedd rhai mamau oedd yn gorfod dod â gwaith adref yn gwarafun *(resented)* yr amser roeddynt yn ei dreulio'n gwneud hynny. Roedd rhai tadau yn teimlo bod eu partner yn brin o'r amser iddynt ymddwyn fel cwpl ac i roi sylw i'w plant. Er hynny, menywod sy'n dal i gario'r baich o wneud lefelau uwch o lafur domestig.

*Ffynhonnell: addasiad o http://www.jrf.org.uk*

**1.** *Atebwch* **bob un** *o'r cwestiynau canlynol.*

*(a)* Eglurwch ystyr y term **rolau rhywedd**. [5]

*(b)* Gan ddefnyddio'r darn uchod, nodwch ym mha ffyrdd y gall gwaith â chyflog a wneir gan fam effeithio ar fywyd teuluol. [5]

*(c)* Gan ddefnyddio enghreifftiau perthnasol, amlinellwch ac eglurwch pam y bu cynnydd yn nifer y mamau sy'n gweithio ers 1950. [20]

*(ch)* Trafodwch y rhesymau dros y newidiadau a ddigwyddodd i strwythurau'r teulu yn ystod y 50 mlynedd diwethaf. [30]

## Opsiwn 2: Diwylliant Ieuenctid

### Ieuenctid a newid cymdeithasol

Yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf gwelwyd llawer o **newid cymdeithasol** oedd yn effeithio ar fywydau pobl ifanc yn y Deyrnas Unedig. Yn y 1980au a'r 1990au fe gollwyd swyddi tymor hir oedd yn addas ar gyfer pobl ifanc. Bu cynnydd mewn gwaith ysbeidiol *(casual)* rhan-amser.

Mae'n anodd i rai dan 25 oed gael budd-daliadau gwladol a does ganddynt fawr o gyfle i gael gafael ar dai. Gwnaed toriadau gan y wladwriaeth i'r cymorth ariannol i fyfyrwyr mewn addysg bellach. Mae'r llwybrau traddodiadol a arweiniai at fyd oedolion, megis cael swydd neu deulu'n cael eu cau.

Mae'r ymchwil a wnaed i'r rhan a chwaraeir gan bobl ifanc ym myd gwleidyddiaeth wedi pwysleisio pa mor isel yw lefel eu cyfranogaeth *(participation)* mewn gwleidyddiaeth, fel y gwelir yn eu haelodaeth o'r pleidiau gwleidyddol, eu patrwm pleidleisio, a'r gefnogaeth a roddir ganddynt i wleidyddiaeth y brif ffrwd.

Mae'r delweddau poblogaidd o bobl ifanc ar y cyfryngau yn adlewyrchu ac yn cadarnhau'r portread o ieuenctid fel problem. Mae trosedd a gyflawnir gan ieuenctid yn cael ei hystyried yn fater llosg, ynghyd â chyfranogaeth pobl ifanc yn y ffurfiau mwy dramatig o ddiwylliant ieuenctid.

Mae'r Llywodraeth yn pryderu am droseddau ieuenctid a chysylltiadau hynny â methiant addysgol a diweithdra. Rhoddwyd blaenoriaeth ganddi i'r angen am ddatblygu mentrau i gryfhau'r syniad ymysg pobl ifanc bod ganddynt ran i'w chwarae yn y gymdeithas.

*Ffynhonnell: addasiad o http://www.esrcsocietytoday.ac.uk*

**2.** *Atebwch* **bob un** *o'r cwestiynau canlynol.*

*(a)* Eglurwch ystyr y term **newid cymdeithasol**. [5]

*(b)* Gan ddefnyddio'r darn uchod, nodwch y newidiadau sydd wedi digwydd ym mywydau pobl ifanc. [5]

*(c)* Gan ddefnyddio enghreifftiau perthnasol, amlinellwch ac eglurwch resymau pam yr ystyrir bod pobl ifanc yn broblem i'r gymdeithas. [20]

*(ch)* Trafodwch sut mae newidiadau yn y gymdeithas yn effeithio ar ddiwylliannau ieuenctid. [30]

## Opsiwn 3: Y Gymuned a Diwylliant



### Cymunedau ar-lein

Bu awduron yn ddigon parod i labelu defnyddwyr rhwydweithiau cyfrifiadurol fel alltudion *(outcasts)* sydd wedi'u neilltuo o gymdeithas normal. Er hynny, nid 'alltudion' sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol yw'r rhai sy'n defnyddio grwpiau sy'n seiliedig ar y Rhyngrwyd, ac nid yw'r amser maent yn ei dreulio ar-lein yn cael effaith ddrwg ar eu cylch ffrindiau all-lein *(off-line)*, eu rhwydweithiau cymdeithasol a'u **cymuned**.

Er bod rhai pobl yn mynd ar-lein i chwilio am gyfeillgarwch newydd â phobl o bell, mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr ystafelloedd sgwrsio yn ymuno er mwyn cyfathrebu â phobl y maent yn eu hadnabod eisoes.

Fe ddywedir yn aml bod pobl sy'n unig yn gymdeithasol yn ceisio sicrhau cyfeillgarwch ar-lein. Pe bai hynny'n wir, a bod nifer mawr o bobl yn dewis dod yn aelodau o gymunedau ar-lein, gallai hynny gael effaith negyddol ar y gymdeithas gyfan.

Mae'r ymchwil a wnaed yn dangos bod aelodau o ystafelloedd sgwrsio a chymunedau'r Rhyngrwyd yn bobl gymdeithasol sydd â chysylltiadau da, a'u bod yn defnyddio'r Rhyngrwyd i wneud ymchwil ac i gyfathrebu â chyfeillion sydd ganddynt eisoes.

Yn ogystal â hynny, mae rhwydweithiau cymunedol yn seiliedig ar yr egwyddor y gall cyfathrebu trwy gyfrifiadur fod o les wrth ddelio â phroblemau lleol a meithrin ymdeimlad o gymuned.

*Ffynhonnell: addasiad o waith ymchwil gan Robin Hamman*

**3.** *Atebwch* **bob un** *o'r cwestiynau canlynol.*

*(a)* Eglurwch ystyr y term **cymuned**. [5]

*(b)* Gan ddefnyddio'r darn uchod, nodwch ffyrdd y gall pobl ddefnyddio'r Rhyngrwyd. [5]

*(c)* Gan ddefnyddio enghreifftiau perthnasol, amlinellwch ac eglurwch pam mae cymunedau yn bwysig i gymdeithas. [20]

*(ch)* Trafodwch sut y gall aelodaeth o gymuned roi ymdeimlad o hunaniaeth i berson. [30]